Drafft o Gyfarfod Cyngor Cymuned Llanbedr Hydref 5ed 2023

3 yn absennol o'r cyfarfod.

Dim ceisiadau cynllunio.

Datgan buddiant – wrth drafod cais y Neuadd am gyfraniad tuag at panel solar. Pasiwyd I gefnogi mewn egwyddor ond angen mwy o wybodaeth. Bu I Jones roi cyflwyniad ar zoom.

Llwyddiant I 2 o ferched ifanc yr ardal. Lowrie Howie Pencampwraig Cymru dan 14 a Phencampwraig Prydain dan 14 2023. Camp scio. Yna hefyd I Nansi, Cae Nest, hithau a'I cheffyl wedi cyrraedd Horse of the Year yn Birmingham. Da iawn iddynt.

Adroddiad cyllid – y cyfrfifon am 2022/23 wedi cael eu cymeradwuo gan yr Archwilydd allanol. Byddent ar y we gyda hyn.

Yn y banc diwedd Medi £30439.25

Materion yn codi

- Gwaith ar wal rhwng Ardudwy a llwybr y fynwent – Gwaith yn mis Rhagfyr.
- Llwybrau – rhai wedi eu gwneud
- Angen archwiliad offer cae chwarae ar gost o £328.80
- Angen cael pris am docio y gwrych cae chwarae.
- Huchenfeld – Cafwyd cyfarfod zoom mis medi. Nododd HJ bod yr arian yn y cyfrif ar gyfer rhannu teithiau ieuenctid. Dal I ddisgwyl y llyfr resetiau mewn 3 iaith. Gwaith pwytho yn y Neuadd angen ei drwshio. Bydda modd defnyddio arian wrth gefn ar gyfer hyn? (£374.96 neu ei neilltuo ar gyfer y flwyddyn nesaf).
- Sul y Cofio – yr un trefniadau a llynedd. ATC wedi cadarnhau y byddant yn cymerud rhan.
- Toiledau – un o'r toiledau merched yn dal ar gau. AH am holi parthed hyn.
- Angen arwyddion "toiledau" a arwydd Neuadd Gymdeithasol yn y pentref. Rhoi post cod y Neuadd ar y wefan?
- Bu cynrychiolaeth o'r Cyngor ar bwyllgor HAL yn ddiweddar.
- Cafwyd rai esboniadau parthed cyflogau.
- Wal ddringo ar gau oherwydd y to wedi chwalu.
- Caffi hefyd mond yn gwneud paneidia,
- Y Cyngor wedi pasio I gyfrannu fesul mis hyd at ddiwedd Mawrth!
- Arwyddion man pasio ffordd Cypla – hyn yn derbyn sylw.
- Posibilrwydd o gael llinellau melyn ger mynedfa rhwng y Wenallt a Hen Becws.
- Rhiw Garth Goch a Ffordd Cwm Nantcol – tyllog. Yn derbyn sylw y Peiriannydd Ardal ac yr Arolygwr Ffordd l'r mater, gan edrych pa ddiffygion sydd wedi eu adnabod ac o s oes gwaith yn yr arfaeth.
- Dal I drio am fin baw cwn ger yr Orsaf dren.
- Boncyff coeden bron a chwalu clawdd ochr uchaf I'r gof golofn. Hysbysu Cyngor Gwynedd.
- Cafwyd pwyllgor parthed gwelliannau Llanbedr a'r holiadur . Heb dderbyn cadarnhad ffurfiol o ganlyniad yr holiadur hyd yma. Nifer wedi ymateb 283. Ydi hwn yn rhesymol o ffigwr? Pwy ddaru ei lenwi, ar lein yn unig a nifer yn methu cymerud rhan. Felly ddim yn deg iawn.
- Nodwyd bod 27 tir feddiannwr wedi llenwi yr holiadur.
- Amheuaeth a yw'r £300000 ar gyfer Llanbedr neu I rannu a Coridor Gwyrdd Ardudwy. Nododd JT mae ar gyfer Llanbedr mae hwn. Cadarnhad gan y Llywodraeth o hyn.!!

- Gobeithio y cawn gwmni Y Swyddog Prosiect yn fuan ar gyfer cerdded y pentref er mwyn gweld a phrofi'r broblem diogelwch yma yn Llanbedr.